OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 66

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021

## RHAN 2

Diwygiadau i Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Ychwanegu gwledydd at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn Atodlen 3A**

**2.** Yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lle priodol mewnosoder—

"Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo"

"Gweriniaeth Unedig Tanzania".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.** Nid yw rheoliad 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.